SEMESTER UN 2025/2026

ADRAN Y GYFRAITH A THROSEDDEG

CT30720 Cyfraith Ewrop

Amser: **2 AWR**

Atebwch DDAU gwestiwn

Mae ymgeiswyr yn cael dod â chopi heb ei farcio o *Blackstone's EU Treaties and Legislation* i mewn i'r arholiad. Yn ystod yr arholiad, PEIDIWCH â marcio unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ganiatáu yn yr arholiad. NID YW llyfrau llyfrgell yn cael eu caniatáu. Caniateir ichi oleuo testun a thanlinellu. Cewch ddefnyddio papurau gludiog 'post-it' heb eu marcio i gadw tudalennau

Caniateir i ymgeiswyr fynd ag UN dudalen A4 o nodiadau wedi'u hysgrifennu â llaw neu eu teipio (ar y ddwy ochr) i mewn i'r arholiad

MAE MYFYRWYR YN CAEL CYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN GYMRAEG NEU YN SAESNEG

Ar ôl eistedd, DIM OND tudalen flaen y llyfr/llyfrau atebion a'r papur presenoldeb y mae myfyrwyr yn cael eu llenwi.

PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR ARHOLIAD DROSODD TAN Y DYWEDIR WRTHYCH AM WNEUD HYNNY.

1. Esboniwch a chloriannwch p’un a yw'r gweithdrefnau a'r athrawiaethau a roddwyd ar waith i sicrhau effeithiolrwydd Cyfraith yr UE wedi'u seilio ar set o egwyddorion sy’n gydlynol ac wedi’u strwythuro’n dda, neu ai ymatebion pragmatig i broblemau ymarferol ydynt.

2. 'Mae'r weithdrefn yn Erthygl 263 yn fecanwaith bwysig ym mheirianwaith adolygiadau barnwrol, ond mae iddi ei diffygion' [Steiner a Woods]. Esboniwch a chloriannwch y sylw hwn yng nghyd-destun y broblem o sicrhau llywodraethu dilys i'r UE, yn ogystal â’r ystod o fecanweithiau a ddefnyddir i ddal sefydliadau'r UE i gyfrif wrth arfer eu pwerau.

3. Yn ôl Jacques Ziller, y 'farchnad fewnol yw llwyddiant pennaf yr UE, ac mae’n cael ei hystyried fel model byd-eang o integreiddio rhanbarthol dwfn.' Esboniwch a chloriannwch y datganiad hwn yng nghyswllt egwyddorion sylfaenol y farchnad fewnol a rôl yr egwyddorion hynny o fewn system gyfreithiol yr UE.